# CA3 Cymraeg – Newyddion ffug

**Gweithgaredd 1**

**Atebion**

Dibynadwy: www.nasa.gov

Pam?

- Mae cyfeiriad y wefan '.gov' yn dangos ei bod yn un o ffynonellau'r llywodraeth.
- Mae digon o linciau ar y dudalen er mwyn gweld mwy o wybodaeth, ee Cliciwch yma i weld misoedd y flwyddyn.
- Mae manylion Trydar yn cael eu cynnig ar waelod y dudalen, gan gynnwys manylion cyswllt. Dyma ffordd o gysylltu gyda'r awdur, ac hefyd mae Trydar yn ein galluogi ni i wirio cynnwys y wefan mewn man arall.

Annibynadwy: www.blogiau.com/personol/nasa

Pam?

- Mae cyfeiriad y wefan yn cynnwys 'blogiau' a 'personol'. Mae hyn yn awgrymu mai blog personol rhywun yw'r wefan, sy'n golygu bod un person yn rheoli cynnwys y dudalen. Mae hyn yn meddwl bydd y cynnwys o safbwynt y person yna ac o bosib yn cynnwys barn a thuedd.
- Mae'r awdur yn cyflwyno'i hun ar ddechrau'r darn gan nodi ei fod ef neu hi yn arbenigwr NASA er nad oes tystiolaeth yn cael ei gynnig i brofi hyn. Nid ydym yn gallu dibynnu ar y wybodaeth yma.
- Mae nifer o enghreifftiau o gamsillafu yn y darn, sy'n awgrymu nad yw'r cynnwys wedi cael ei wirio a nad oes safonau uchel iawn o ran y cynnwys.
- Nid oes unrhyw fanylion cyswllt yn cael eu cynnig ar gyfer yr awdur.
- Mae'n rhaid tanysgrifo (*subscribe*) a thalu i weld manylion pellach y dudalen.

 © BBC